Lesley Griffiths AC / AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

26 Mawrth 2019

Annwyl Mike

Bil Amaethyddiaeth y DU – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Diolch ichi am y craffu gwerthfawr gan y Pwyllgor o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â Bil Amaethyddiaeth y DU a'u hadroddiad fis Ionawr 2019. Mae swyddogion yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd yn ofalus a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd maes o law.

Yn y cyfamser, rwyf am sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i Fil Amaethyddiaeth y DU sydd wedi ei gyflwyno gennyf heddiw. Rwy'n atodi copi er gwybodaeth ichi.

Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Pwyllgor y Bil Cyhoeddus, i'w gweld yma:
https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0292/18292.pdf

Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyflwynwyd ar 4 Hydref 2018, rhoddais amlinelliad o ddau o bryderon oedd gennyf yn weddill yn gysylltiedig â'r Lefi Cig Coch a Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Rwyf yn falch o gadarnhau ein bod bellach wedi datrys y ddwy broblem hon.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym wedi llwyddo i ddiwygio'r Bil i gynnig ffyrdd addas o ddatrys y broblem hirdymor o gael y lefi cig coch yn ôl. Mae hwn bellach yn rhan o'r Bil (fel y'i diwygiwyd ym Mhwyllgor y Bil Cyhoeddus) yng Nghymal 29. Mae'r Cymal newydd yn galluogi Gweinidogion, drwy weithredu ar y cyd, i sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu'r lefi rhwng ei gilydd. Bydd swyddogion bellach yn parhau i ddatblygu cynllun ar yr un pryd â'r ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r Senedd i sicrhau bod system deg wedi'i sefydlu cyn gynted â phosib.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd yn falch o hysbysu'r Pwyllgor ein bod wedi sicrhau cytundeb sylweddol gyda Llywodraeth y DU i reoli'r defnydd o bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ym Mil Amaethyddiaeth y DU o ran sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. Amgaeaf gopi o'r cytundeb er gwybodaeth ichi. Mae'r cytundeb yn pennu dull cadarn a thryloyw i gynnwys Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau yn ogystal â dull o ddatrys anghydfodau. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y Llywodraethau. Mae hefyd yn fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau gydweithredu, ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio.

Mae'r Memorandwm Atodol yn diweddaru'r sefyllfa o ran y pryderon a amlinellwyd uchod yn ogystal â nodi diwygiadau pellach a wnaethpwyd i Fil Amaethyddiaeth y DU yn ystod Pwyllgor y Bil Cyhoeddus sy'n gwneud darpariaeth berthnasol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Hoffwn ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor os oes angen.

Mae'n debygol y bydd rhagor o newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, er mwyn ymateb i bwyntiau a godir wrth i'r Pwyllgor graffu ar y Bil. Felly, rwyf yn disgwyl gosod Memorandwm Atodol arall yn nes ymlaen yn ystod proses y Bil, fel y bo'n briodol, cyn cyflwyno trafodaeth i'r Cynulliad i ystyried cydsynio i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs